

Gofal mwy diogel i bawb – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt

Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol bum swyddogaeth allweddol ar hyn o bryd.

- Ysgogi gwelliannau yn y 10 rheolydd statudol mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy gynnal adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd
- Darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer unrhyw benderfyniadau addasrwydd i ymarfer sy'n annigonol i amddiffyn y cyhoedd
- Codi safonau ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn meysydd anstatudol rolau trwy ei raglen Cofrestrau Achrededig
- Rhoi cyngor annibynnol i'r Cyfrin Gyngor ar ansawdd prosesau penodi ar gyfer aelodau'r cyngor sy'n rheoleiddio
- Defnyddio ymchwil a datblygu polisi i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn well.

Ein Gweledigaeth – Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Ein Cenhadaeth – Diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella'r broses o reoleiddio a chofrestru gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod a sut rydym yn cael ein hariannu ewch i: <https://www.professionalstandards.org.uk/about-us/how-we-work>

Y rheolyddion proffesiynol rydym yn eu goruchwyllo:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC)
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC)
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI)
- Social Work England (SWE)

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol hefyd yn achredu cofrestrau ymarferwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y gyfraith. Mae'r rhestr lawn o gofrestrau sydd wedi'u hachredu o dan ein rhaglen Cofrestrau Achrededig i'w gweld ar ein gwefan yma:

www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accredited-registers/find-a-register

Ugain mlynedd o'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) gan y Senedd yn 2002 i wella rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd hyn yn dilyn argymhellion o'r ymchwiliad cyhoeddus i lawfeddygaeth y galon i blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste 1984-1995. Canfu'r ymchwiliad fod methiannau rheoleiddio wedi cyfrannu at y materion a nodwyd yn Ysbyty Brenhinol Bryste. Amlygodd y risgiau a achosir gan 'ddarnio a diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldeb am reoleiddio ansawdd gofal iechyd'. Roedd angen i reolyddion ddod yn fwy annibynnol o'r proffesiynau, a bod yn fwy cydgysylltiedig rhyngddynt eu hunain.

Sefydlwyd yr Awdurdod i roi budd y cyhoedd wrth galon rheoleiddio, a dod â pheth cysondeb a chydlynid i waith y rheolyddion.* Estynnodd y Senedd gylch gwaith yr Awdurdod yn 2012 yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gorchymyn *Galluogi Rhagoriaeth*. Nododd yr angen i benderfyniadau ynghylch rheoleiddio proffesiynau fod yn seiliedig ar risg, ac am broses i sicrhau bod penodiadau i Gynghorau rheoleiddiwr yn parhau i fod yn annibynnol, yn dilyn y bwriad i ddiddymu'r Comisiwn Penodiadau.

Rhodddwyd pwerau achredu i'r Awdurdod i godi safonau yn y gweithlu heb ei reoleiddio, a dyletswydd i gynghori ar benodiadau i Gynghorau rheolyddion. Yn 2015, rhodddwyd yr un amcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd i'r Awdurdod a'r rheolyddion. Cryfhaodd hyn ein dyletswydd ar y cyd i weithredu er budd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Yn ystod oes yr Awdurdod, mae rheolyddion newydd wedi'u sefydlu ac mae proffesiynau newydd wedi cael eu rheoleiddio neu eu trosglwyddo rhwng rheolyddion. Mae'r Awdurdod bellach yn goruchwyllo 10 rheoleiddiwr, sy'n cwmpasu dros 1.7 miliwn o weithwyr proffesiynol meddygol, nyrsio, bydwreigiaeth, deintyddol, fferyllol, perthynol i iechyd, optegol, gwaith cymdeithasol, osteopathig a cheiropractig.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig hefyd wedi tyfu. Mae bellach yn cwmpasu dros 60 o wahanol alwedigaethau gyda 100,000 o ymarferwyr ar gofrestrau. Dros y cyfnod hwn, mae'r Awdurdod wedi addasu ei waith i gefnogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru er mwyn diogelu'r cyhoedd.

* Ein deddfwriaeth sefydlu yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002. Cawsom ein sefydlu fel y Cyngor ar gyfer Rheoleiddio Proffesiynau Gofal Iechyd, a ddaeth bryd hynny yn Gyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd, cyn cael ein hail-enwi yn Awdurdod Safonau Proffesiynol yn 2012.

Cerrig milltir allweddol mewn rheoleiddio proffesiynol ac uchafbwyntiau allweddol ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Cerrig milltir allweddol mewn rheoleiddio proffesiynol

1998-2004

I'r oes fodern: diwygiadau Kennedy

Ynghyd â digwyddiadau allweddol eraill yn ystod y cyfnod hwn, arweiniodd Adroddiad Kennedy i fethiannau mewn llawdriniaeth y galon i blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste at ddiwygiadau arwyddocaol. Roedd hyn yn cynnwys creu'r Cyngor ar gyfer Rheoleiddio Gweithwyr Iechyd (corff rhagflaenydd yr Awdurdod), i gydlynu rheolyddion a sicrhau mwy o ffocws ar les y cyhoedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell dyletswydd gonestrwydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

2003-2010

O hunan reoleiddio i rannu rheoleiddio: diwygiadau ôl Shipman

Sefydlodd beirniadaeth gref o reoleiddio yn codi o'r adroddiad i droseddau Harold Shipman bwysigrwydd cynnwys unigolion llewg yn y broses addasrwydd i ymarfer, gwahaniad rhwng ymchwilio a barnu a'r angen am wiriadau cymhwyster parhaus sy'n arwain at gyflwyno ail-ddilysu ar gyfer meddygon.

2010-2015

Ailgynllunio'r GIG, ond diwygio rheoleiddio yn methu

Cyhoeddi Papur Gwyn y Llywodraeth, *Galluogi Rhagoriaeth* gan ddefnyddio egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir (a ddylanwadwyd gan yr agenda Gwella Rheoleiddio) ac yn arwain at greu Cofrestrau Achrededig. Mae newid strwythurol i'r GIG yn digwydd, fodd bynnag, nid yw Bil Comisiwn y Gyfraith i symleiddio rheoleiddio proffesiynol yn cael ei ddwyn ymlaen. Mae Adroddiad Francis ar y methiannau yng Nghanol Swydd Stafford yn beirniadu natur dameidiog y system reoleiddio ac yn arwain at gyflwyno dyletswydd gonestrwydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

2015-2020

Ailystyried rheoleiddio

Mae'r Awdurdod a'r holl reolyddion yn derbyn yr amcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd.

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi diwygiadau yn seiliedig ar *Rethinking regulation* a chynigion Comisiwn y Gyfraith. Cyhoeddir ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad diwygio yn 2019 yn amlinellu diwygiadau i brosesau addasrwydd i ymarfer, llywodraethu a chreu rheolau'r rheolyddion. Mae'r Ymchwiliad i Farwolaethau Cysylltiedig â Hyponatremia yng Ngogledd Iwerddon yn canfod methiannau yn y gofal a ddarparwyd ac ymchwiliad dilynol. Mae'n tanlinellu heriau parhaus gyda gonestrwydd a thryloywder.

2020

I'w barhau

Mae gwaith ar gynigion ar gyfer diwygio rheoleiddio yn parhau tra bod y pandemig COVID-19 yn datblygu. Mae adroddiadau Paterson, Cumberlege, ac Ockenden yn disgrifio system dameidiog gyda phryderon diogelwch cleifion yn disgyn drwy'r bylchau a llais y claf yn mynd ar goll.

Uchafbwyntiau allweddol ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

2002

Corff i sicrhau bod rheoleiddio proffesiynol yn canolbwyntio ar fudd y cyhoedd

Mae Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yn creu'r corff a ddaw yn Awdurdod. Mae Gweinidogion yn ein disgrifio fel 'gwarcheidwad budd y cyhoedd'.

2010

Ffordd newydd o feddwl am reoleiddio

Rydym yn cyhoeddi *Rheoleiddio cyffyrddiad cywir*. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygu polisi rheoleiddio, ac yn dod yn ddylanwadol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

2012

Cychwyn cyfnod newydd i'r Awdurdod

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 yn newid ein henw i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn rhoi annibyniaeth ariannol i ni oddi wrth y llywodraeth ac yn rhoi pwerau i ni mewn perthynas â phenodiadau cynghorau rheoleiddio a Chofrestrau Achrededig.

2015 a 2016

Galwad am ddiwygio strwythurol

Wedi i gamau i adolygu'r gyfraith sy'n sail i'r rheolyddion ddod i stop, rydym yn dadlau'r achos dros ddiwygiadau mwy radical yn *Ailystyried rheoleiddio ac Ailfeddwl am reoleiddio*. Mae'r adroddiadau'n amlygu pa mor ddatgysylltiedig yw'r system a'r problemau y mae hyn yn eu hachosi, ac yn dadlau o blaid gostyngiad yn nifer y rheolyddion – yn ddelfrydol i lawr i un sefydliad.

2017

Cynllun ar gyfer diwygio'r ffordd y mae rheolyddion yn gweithio

Rydym yn cyhoeddi *Diwygio cyffyrddiad cywir*, gan amlinellu cynigion manwl ar gyfer sut y gallai rheolyddion fod yn fwy effeithiol. Mae llawer o gynigion ynddo yn cael eu codi yn ymgynghoriad diwygio'r Llywodraeth, *Hyrwyddo proffesiynoldeb, Diwygio rheoleiddio*.

2022

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd ar gyfer gofal mwy diogel

Rydym yn nodi 20 mlynedd ers ein creu ac yn cyhoeddi *Gofal mwy diogel i bawb – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt* gyda galwad i weithredu i gydweithio i fynd i'r afael â materion diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth allweddol.

Rhagair gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Wrth i ni nodi 20 mlynedd ers sefydlu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol, rydym yn edrych ar rai o'r heriau mwyaf sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig. Nid oes amheuaeth bod rheoleiddio proffesiynol wedi gwella dros y ddau ddegawd diwethaf. O fwy o dryloywder mewn penderfyniadau am weithwyr proffesiynol, i newidiadau llywodraethu i reoli dylanwad buddiannau proffesiynol, mae llawer i'w groesawu.

Fodd bynnag, datgelodd adroddiad diweddar Ockenden ar fethiannau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford niwed ar raddfa syfrdanol, a achoswyd gan ddau ddegawd o ofal gwael, a'n rhybuddio nad yw'r ffactorau cyfrannol yn debygol o fod yn gyfyngedig i'r Ymddiriedolaeth hon yn unig. Ydy cleifion yn fwy diogel nawr nag oedden nhw ar droad y mileniwm? A ydym yn dysgu o'r ymchwiliadau cyhoeddus hyn?

Mae nawr yn gyfnod o her a newid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Trawsnewidiodd y pandemig y ffordd y mae gwaith cymdeithasol yn cael ei ddarparu, a tharfu ar y berthynas rhwng y GIG a'i gleifion. Dim ond dechrau deall yr effeithiau hirdymor ar y gofal a gawn ydyn ni.

Ar yr un pryd, bydd y Ddeddf Iechyd a Gofal yn ymgorffori newidiadau pellgyrhaeddol yn y ffordd y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban am greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a fyddai'n rhoi gofal cymdeithasol a ariennir gan y wladwriaeth ar sail debyg i iechyd. Mae hyder y cyhoedd yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y Deyrnas Unedig yn cael ei brofi gan fethiannau proffil uchel olynol, o'r ymholiadau hyponatraemia a niwroleg yng Ngogledd Iwerddon, i fethiannau mamolaeth a gofal cymdeithasol yng Nghwm Taf a Brithdir yng Nghymru. Mae gwasanaethau ledled y Deyrnas Unedig yn wynebu prinder gweithlu ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, ac mae anghydraddoldebau iechyd yn tyfu.

Yn ogystal, mae Llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn gweithio ar drawsnewid rheoleiddio proffesiynol y mae dirfawr angen amdano. Maent yn ystyried nifer y rheolyddion, a pha rolau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol y dylid eu rheoleiddio, wrth iddynt gyflwyno newidiadau sylfaenol i bwerau a threfniadau llywodraethu rheolyddion proffesiynol presennol.

Rydym yn gweld yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangosir gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn cydnabod bod y pandemig wedi gwaethygu'r heriau a oedd yn bodoli eisoes i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth wneud hynny wedi bod yn faich personol enfawr i lawer.

Gwyddom fod ymrwymiad ar y cyd i ddiogelu'r cyhoedd ar draws y rheolyddion a'r cofrestrau a oruchwyliwn, ac awydd i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel mewn cyfnod heriol. Fodd bynnag, mae'n amlwg i unrhyw un sy'n ymwneud â chadw cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel bod llawer i'w wneud o hyd. Er eu bod yn bwysig, nid yw'r diwygiadau presennol, ynddynt eu

hunain, yn darparu llawer o atebion i'r heriau sy'n ein hwynebu. Yr hyn y gallent ei wneud yw rhoi rhai o'r arfau i'r rheolyddion wneud hynny, a gobeithiwn y bydd ein hadroddiad yn helpu gyda hyn.

Nawr yw'r amser i ofyn rhai cwestiynau anodd am y fframweithiau sydd yno i gadw cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel, a rôl rheoleiddio proffesiynol o fewn y fframweithiau hyn.

Fel y corff goruchwyllo ar gyfer y rheolyddion a'r cofrestrau gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, rydym mewn sefyllfa unigryw i edrych ar draws y tirweddau iechyd a gofal cymdeithasol o amgylch y Deyrnas Unedig, ac adrodd ar y themâu a'r materion a welwn.

Yn y cyhoeddiad hwn rydym yn rhoi ein barn ar rai o'r heriau sydd heb eu datrys ar gyfer diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn 2022 a thu hwnt. Rydym yn archwilio sut y gallai fod angen i reoleiddio proffesiynol, ac mewn rhai achosion y system ehangach, addasu i'r heriau hyn. Maent yn cynnwys:

- Effaith anghydraddoldebau ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chofrestryddion, ac ar hyder y cyhoedd yn ehangach
- Yr heriau sy'n wynebu rheolyddion wrth addasu i ffactorau aflonyddgar newydd o ran sut mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn darparu gofal, megis gwrthdaro buddiannau ariannol, modelau busnes newydd a newidiadau technolegol
- Argyfwng y gweithlu a sut y gall fod angen i reoleiddio proffesiynol esblygu i gefnogi anghenion y gweithlu'n well ledled y Deyrnas Unedig
- Sut i wneud i ddiwylliannau dysgu ac atebolrwydd unigol weithio gyda'i gilydd er diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r rhain yn bynciau eang, cymhleth. Er bod ganddo ran bwysig i'w chwarae, dim ond un rhan o'r darlun yw rheoleiddio proffesiynol. Rydym yn ymwybodol iawn bod pob un o'r materion hyn angen ac yn haeddu ystyriaeth ddyfnach o lawer nag y gallwn ei roi yma. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd ein safbwynt edrych o'r tu allan i mewn yn ein helpu i ddeall y problemau a nodi rhai ffyrdd ymlaen. Maent yn faterion difrifol sy'n rhy fawr i reoleiddio, neu wledydd unigol y Deyrnas Unedig, fynd i'r afael â nhw ar eu pen eu hunain, a bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw ar y cyd. Rhaid eu trafod hefyd, a datblygu atebion law yn llaw â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn edrych ar heriau sy'n ymestyn y tu hwnt i'n cylch gorchwyl uniongyrchol oherwydd rydym am dynnu sylw at fylchau y mae er budd y cyhoedd i'w llenwi. Nid ydym yn honni bod gennym yr holl atebion, ac rydym yn cydnabod y gallai fod gan eraill farn wahanol, ond gwyddom ein bod i gyd yn rhannu ymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd. Gobeithiwn, drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn, y gallwn ysgogi trafodaeth bellach, a fydd yn y pen draw yn arwain at welliannau a fydd o fudd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau ledled y Deyrnas Unedig.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd tuag at ofal mwy diogel i bawb.

Caroline Corby, Cadeirydd

Alan Clamp, Prif Weithredwr

Yr Hanfodion: beth yw pwrpas yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio cyflwr presennol rheoleiddio iechyd a gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig, ond mae'n mynd y tu hwnt i hynny wrth nodi a chynnig atebion i rai o'r heriau enfawr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol heddiw.

Rydym yn nodi yma beth yw pwrpas yr adroddiad hwn – y pethau y mae angen i'r sector eu gwybod, a'r hyn yr ydym am ei weld yn digwydd.

Beth yw'r problemau?

Mae ein hadroddiad yn ystyried pedair prif thema:

- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau:** mae canlyniadau anghyfartal ac annheg o hyd ar gyfer grwpiau gwarchodedig mewn agweddau ar reoleiddio proffesiynol. Mae yna lawer hefyd nad ydym yn ei wybod o hyd am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar fecanweithiau cwyno hollbwysig pan fydd gofal wedi mynd o'i le – neu yn wir yr hyn y gallai hyn ei ddweud wrthym am ragfarnau mewn gofal ei hun. Rhaid i reoleiddio proffesiynol weithio i fynd i'r afael â'i faterion ei hun, a chefnogi gweithwyr proffesiynol i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth ddylunio a darparu gofal. Ond fel sector, mae angen i ni hefyd fod yn well am glywed lleisiau amrywiol, a chasglu, dadansoddi a rhannu data.
- **Rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd:** weithiau gwneir newidiadau yn y ffordd y caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu gyda ffocws cyfyngedig ar y risgiau a'r effeithiau ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, a sut i'w rheoli. Mae diwygio'r rheolyddion yn rhoi cyfle i ni fynd i'r afael â phroblemau hysbys, a gall hyd yn oed gynnwys rhywfaint o ystwythder ar gyfer y dyfodol – os byddwn yn achub ar y cyfle a gyflwynir i ni. Ond mae angen ffyrdd gwell, mwy dibynadwy arnom hefyd i ragweld y newidiadau hyn.
- **Wynebu argyfwng y gweithlu:** mae prinder gweithlu yn rhoi cleifion a defnyddwyr gwasanaeth mewn perygl ledled y Deyrnas Unedig. Nid yw agweddau greddfodol at reoleiddio proffesiynol a chymwysterau yn helpu. Mae'n bryd ailfeddwl am gyfraniad rheoleiddio proffesiynol at gynllunio'r gweithlu.
- **Atebolrwydd, ofn, a diogelwch y cyhoedd:** mae diwylliannau yn unig ac atebolrwydd unigol yn hanfodol i ofal gwell, mwy diogel, a rhaid iddynt gydfodoli. Dylai rheoleiddio proffesiynol fod yn gliriach ynghylch ei rôl, er mwyn lleihau pryder diangen a chwynion amhriodol. Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd ar gyfer y dulliau newydd hyn o ymdrin â diogelwch megis 'mannau diogel', i ymgorffori bod yn agored gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a theluoedd, a chymau gweithredu yn erbyn unigolion lle mae ei angen er mwyn diogelwch y cyhoedd.

Nododd ein harchwiliad o'r themâu hyn hefyd broblem sector cyfan:

- **Diffygion strwythurol yn y fframwaith diogelwch:** mae tirwedd diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn dameidiog a chymhleth. Mae pryderon a godir yn aml yn disgyn rhwng sefydliadau, neu'n cael eu gadael heb eu trin oherwydd materion awdurdodaeth neu bwerau annigonol. Mae methiannau gofal

ar raddfa fawr yn dal i ddigwydd yn aml, ac mae ymholiadau ac adolygiadau yn amlygu themâu a phroblemau tebyg, ac mae'n ymddangos na all y system eu hatal rhag digwydd eto. Mae pob corff yn edrych ar y problemau yn bennaf trwy lens ei gylch gwaith ei hun, gan ragfarnu natur yr atebion yn aml o ganlyniad. Mae arnom angen fframwaith newydd sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch sy'n pontio ffiniau sefydliadol a sectoraidd.

Beth yw'r atebion?

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion strwythurol yn y fframwaith diogelwch ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, hoffem weld:

- Comisiynydd Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol annibynnol (neu gyfwerth) ar gyfer pob gwlad yn y Deyrnas Unedig i nodi risgiau cyfredol, risgiau sy'n codi a risgiau posibl ar draws yr holl system ieuchyd a gofal cymdeithasol, a chyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol ar draws sefydliadau.

O ran y materion a nodwyd ar draws ein pedair thema, byddent yn helpu i nodi:

- Risgiau sy'n effeithio ar grwpiau gwarchoddedig yn wahaniaethol [*Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau*]
- Risgiau sy'n codi yn y modd y caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu nad eir i'r afael â nhw [*Rheoli ar gyfer risgiau newydd*]
- Risgiau sy'n ymwneud â phrinder gweithlu a sut mae ymarferwyr yn cael eu rheoleiddio [*Wynebu argyfwng y gweithlu*]
- Risgiau anfwriadol sy'n codi, neu'n debygol o godi, o ddulliau cenedlaethol presennol, neu arfaethedig, tuag at ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth [*Atebolrwydd, ofn, a diogelwch y cyhoedd*].

Byddent hefyd yn cydlynu ymchwiliadau ac adolygiadau cyhoeddus, ac yn monitro sut y caiff argymhellion eu gweithredu.

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â phedair thema'r adroddiad, rydym yn cynnig:

- Menter ar draws y sector i wella'r gwaith o gasglu, dadansoddi a rhannu data demograffig achwynwyr, er mwyn helpu deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gofal ac ymdrin â chwynion [*Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau*]
- Bod llywodraethau'n sicrhau bod y diwygiadau presennol i'r rheolyddion proffesiynol yn eu galluogi i ymateb i risgiau sy'n deillio o ddatblygiadau yn y modd y caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu [*Rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd*]
- Strategaeth reoleiddio gydlynol ar gyfer ymarferwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau gweithlu cenedlaethol ledled y Deyrnas Unedig [*Wynebu argyfwng y gweithlu*]
- Bod yr Awdurdod yn dod â rhanddeiliaid ynghyd i ddod o hyd i ffyrdd ar gyfer dull 'mannau diogel' Cangen Ymchwiliadau Diogelwch Gofal Iechyd (HSIB) **Lloegr**, a mentrau lleol a chenedlaethol eraill i wella diwylliant diogelwch, a chefnogi

gonestrwydd ac atebolrwydd. Bydd hyn yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol, rheolyddion, a llawer o rai eraill. [Atebolrwydd, ofn, a diogelwch y cyhoedd]

Crynodeb gweithredol: Gofal mwy diogel i bawb – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt

Bu llawer o welliannau mewn rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, gan arwain at fwy o dryloywder, gwell llywodraethu a dull gweithredu clir a ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r ailadrodd digalon o fethiannau yn dangos bod heriau sylweddol yn parhau o ran ansawdd a diogelwch iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae ein hadroddiad, *Gofal mwy diogel i bawb – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt*, yn archwilio detholiad o faterion allweddol o safbwynt rheoleiddio proffesiynol, ar draws pedair thema allweddol:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd
- wynebu argyfwng y gweithlu
- atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd.

Mae'r rhain yn broblemau mawr, ac nid yw'r atebion i gyd gennym. Fodd bynnag, mae ein hargymhellion allweddol yn darparu ffyrdd posibl ymlaen, i dorri ar draws ffiniau sefydliadol mewn tirwedd iechyd a gofal tameidiog.

Yn ogystal â'r argymhellion ar gyfer eraill, a'n hymrwymadau penodol ein hunain, byddwn yn defnyddio ein rôl oruchwylio i annog cydweithredu, cydweithio a chydlyniant ar draws y system. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio goresgyn rhai o'r heriau sydd ynghlwm wrth wella system mor gymhleth.

Byddwn hefyd yn ceisio dylanwadu ar Lywodraethau i gymryd camau o fewn eu hawdurdodaethau, gan ddechrau gyda'r diwygiadau deddfwriaethol presennol i'r rheolyddion a oruchwyliwn.

Mae'r materion a nodwyd gennym yn ein hadroddiad yn arwain at un casgliad trosfwaol – sef bod angen dull mwy cadarn ar y Deyrnas Unedig i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy diogel i bawb, wedi'i oruchwylio gan bobl sy'n canolbwyntio ar y nod hwn, gyda'r offer i'w wireddu.

Ein hargymhelliad cyffredinol, felly, yw:

Dylai fod gan bob gwlad yn y Deyrnas Unedig Gomisiynydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu swyddogaeth gyfatebol, gyda chyfrifoldeb eang am nodi, monitro, adrodd a chynghori ar ffyrdd o fynd i'r afael â risgiau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r crynodeb hwn yn nodi ein prif ganfyddiadau, argymhellion, ac ymrwymadau fel yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, i gefnogi gofal mwy diogel i bawb.

Dim mwy o esgusodion: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal

Mae anghydraddoldebau mawr ym maes gofal iechyd ac mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae grwpiau o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynediad i

wasanaethau ac yn cael profiad ohonynt. Mae staff hefyd yn wynebu anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn y gweithle, ac o fewn y broses reoleiddio, a all arwain at faterion diogelwch cleifion.

Mae rheolyddion a chofrestrau yn ymwybodol o'r materion hyn ond nid ydynt yn dal i fynd i'r afael â chynrychiolaeth anghymesur grwpiau â nodweddion gwarchodedig drwy gydol y broses reoleiddio.

Gall cleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig fod yn fwy tebygol o brofi canlyniadau gwaeth a gallent fod yn agored i fethiannau gofal mawr. Fodd bynnag, prin yw'r ddealltwriaeth o broffil demograffig achwynwyr na'r rhwystrau posibl i gwyno.

Ni fydd rheoleiddio a chofrestru proffesiynol yn unig yn datrys y broblem gymdeithasol ehangach o anghydraddoldebau. Fodd bynnag, mae rheolyddion a chofrestrau mewn sefyllfa ddylanwadol o ran eu harolygiad o daith gweithiwr proffesiynol neu ymarferydd o hyfforddiant hyd at gofrestru ac ymarfer.

Mae meysydd eraill lle mae'n rhaid i reolyddion, cofrestrau a'r Awdurdod ei hun wneud mwy i sicrhau newid, ac mae angen trafodaeth a dadlau pellach ynghylch rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldebau iechyd.

Argymhellion:

Argymhellwn:

- Mae rheolyddion a chofrestrau yn cydweithio i wella amrywiaeth paneli addasrwydd i ymarfer, penderfynwyr eraill ac uwch arweinwyr i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yn agosach
- Mae rheolyddion a chofrestrau yn gweithio gyda chyrrff iechyd a gofal eraill i gael gwell dealltwriaeth o'r proffil demograffig achwynwyr a lleihau rhwystrau i godi cwynion ar gyfer grwpiau penodol
- Mae rheolyddion a chofrestrau yn adolygu sut mae eu prosesau a chanllawiau addasrwydd i ymarfer yn mynd i'r afael â honiadau o ymddygiad hiliol a gwahaniaethol
- Data demograffig ar gwynion a wneir i'r gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y DU yn cael ei gofnodi a'i wneud ar gael i bob corff ei ddefnyddio.

Gallai rôl y Comisiynydd a drafodwn yn ein hadroddiad hefyd fynd i'r afael â'r argymhelliad a ganlyn:

- Dylid dadansoddi data demograffig ar gwynion ar lefel traws-sector i nodi effeithiau a risgiau anghymesur i grwpiau gwarchodedig.

Ymrwymadau'r Awdurdod i ofal mwy diogel

- Byddwn yn sicrhau bod y broses o gymhwyso ein safonau ar gyfer rheolyddion yn ymestynnol ac yn ysgogi gwelliant parhaus.
- Byddwn yn gweithio i sicrhau ymagwedd gyson ar draws ymarferwyr a reoleiddir a heb eu rheoleiddio trwy ein rhaglen Cofrestrau Achrededig a byddwn yn

cyflwyno gofynion cliriach ar gyfer cofrestrau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn ddiweddarach eleni.

- Byddwn yn edrych ar ein prosesau ein hunain i sicrhau nad ydym yn atgyfnerthu nac yn gwaethygu anghydraddoldebau yn y system reoleiddio. Mae ein *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: 2022-23* yn amlinellu ystod o ymrwymadau rydym wedi'u gwneud mewn perthynas â'n prosesau mewnol a'n rôl allanol.
- Byddwn yn defnyddio ein rôl oruchwylio i annog cydweithredu, cydweithio a chydlyniant ar faterion EDI ar draws y system, gan nodi'r heriau cynhenid wrth geisio mynd i'r afael â phryderon diogelwch pan fo mor dameidiog.

Y dyfodol yw nawr: cadw i fyny â newidiadau yn y sut caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu

Mae newidiadau enfawr ar y gweill yn y ddarpariaeth iechyd a gofal gyda chynnydd yn narpariaeth y stryd fawr a defnydd cynyddol o dechnoleg. Nid yw'r modelau gofal hyn i gyd yn newydd, ac maent wedi'u lledaenu'n anghyson rhwng gwledydd a sectorau'r Deyrnas Unedig. Mae nifer yr achosion o ddarparwyr masnachol a'r gwrthdaro buddiannau a ddaw yn sgil hyn, ynghyd â gwasanaethau ar-lein, a modelau gofal newydd ac arloesol, yn cynrychioli tuedd gynyddol i ffwrdd oddi wrth fodolau darpariaeth sefydledig. Maent hefyd yn creu risgiau newydd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn rhoi gweithwyr proffesiynol mewn sefyllfaoedd anodd, lle mae gyrwyr â ffocws masnachol yn torri ar draws barn broffesiynol, neu mae technolegau newydd yn cymylu llinellau atebolrwydd.

Wrth i ddarpariaeth gofal iechyd barhau i esblygu a newid, mae angen i reolyddion allu wynebu'r heriau yn uniongyrchol gydag ystwythder.

Ar y cyfan, mae rheolyddion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymwybodol o'r materion ac maent eisoes yn cymryd camau i reoli risgiau ac amddiffyn y cyhoedd. Fodd bynnag, maent weithiau'n gyndyn i ymyrryd (er enghraifft mewn materion sy'n ymwneud ag arferion masnachol) hyd yn oed pan fo achos dilys dros wneud hynny. Mae hyn yn rhannol oherwydd y risg o her os nad oes dyletswydd benodol i weithredu. Maent hefyd yn cael eu rhwystro gan ddeddfwriaeth hen ffasiwn a rhy ragnodol, ac nid oes gan rai'r pwerau sydd eu hangen arnynt i amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol.

Efallai y bydd rhaglen gyfredol pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddiwygio rheoleiddio yn rhoi mwy o hyblygrwydd i reolyddion ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n gyfle delfrydol i edrych o'r newydd ar rai o'r materion hyn ac asesu a oes angen iddynt wneud mwy i fynd i'r afael â hwy. Dylai llywodraethau a rheolyddion anelu at fod ar y blaen o ran modelau cyflawni newydd, yn hytrach na'i chael yn anodd dal i fyny yn barhaus.

Mae craffu a gweithredu priodol ar y materion hyn yn fwy heriol oherwydd nifer ac ystod y cyrff dan sylw. Ni all unrhyw gorff neu sefydliad edrych yn fanwl ar y risgiau sy'n dod i'r amlwg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth a nodi atebion posibl. Mae arnom angen mecanweithiau mwy dibynadwy ar gyfer rhagweld newidiadau sy'n agor bylchau diogelu'r cyhoedd ar draws y sector, mewn partneriaeth â chleifion a

defnyddwyr gwasanaethau – ni ddylid ei adael i gyrff unigol o fewn eu cylchoedd gwaith cyfyngedig.

Argymhellion:

Argymhellwn:

- Mae llywodraethau'n defnyddio'r rhaglen diwygio rheoliadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol presennol i:
 - a. adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd pwerau rheolyddion sydd â rôl mewn rheoleiddio busnesau
 - b. ystyried a oes achos dros ymestyn pwerau rheoleiddio busnes i bob rheolydd y mae ei gofrestryddion yn gweithio mewn practisiau 'stryd fawr'
 - c. sicrhau bod gan reolyddion yr ystwythder i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil dulliau newydd o ariannu a darparu gofal, gan gynnwys cyflwyno technolegau newydd.
- Mae rheolyddion yn mynd i'r afael ag arferion busnes sy'n methu â rhoi cleifion yn gyntaf, mewn perygl o danseilio hyder yn y proffesiynau, neu'n methu â chaniatáu i unigolion cofrestredig arfer eu barn broffesiynol. Dylid cynnal adolygiad traws-sector o effeithiolrwydd trefniadau i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau ariannol ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Mae llywodraethau, rheolyddion a chofrestrau yn adolygu sut y byddant yn pennu'r llinellau atebolrwydd ar gyfer technolegau newydd a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal.

Rydym hefyd wedi nodi bwlch a fyddai'n ddelfrydol yn cael ei lenwi gan y Comisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch:

Rydym yn argymhell datblygu mecanweithiau dibynadwy ar gyfer rhagweld newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir sy'n agor bylchau diogelu'r cyhoedd ar draws y sector, a nodi dulliau o fynd i'r afael â hwy.

Wynebu'r argyfwng gweithlu a rôl rheoleiddio yn y dyfodol

Mae'r Deyrnas Unedig yn wynebu prinder gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol difrifol y mae'n rhaid iddi fynd i'r afael ag ef os nad yw gofal i ddioddef, a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael niwed. Er mwyn mynd i'r afael â phrinder yn y gweithlu a reoleiddir yn statudol, rhaid i Lywodraethau, rheolyddion, a chyflogwyr lwyddo i gadw gweithwyr proffesiynol presennol, a recriwtio a hyfforddi rhai ychwanegol.

Gall yr olaf olygu bod rheolyddion yn herio confensiynau ynghylch addysg a hyfforddiant, a Llywodraethau yn sefydlu llwybrau clir. Opsiwn arall efallai fyddai edrych ar y rheini sy'n gweithio mewn rolau heb eu rheoleiddio sydd eisoes yn helpu mynd i'r afael â phrinder staff ac ystyried a allant, gyda mesurau diogelu priodol, chwarae mwy o rôl. Bydd angen i weithwyr proffesiynol hefyd feddu ar y sgiliau sydd

eu hangen i'w paratoi ar gyfer anghenion gwahanol grwpiau o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth a newidiadau yn y modd y darperir iechyd a gofal yn y dyfodol.

Ni fydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn hawdd. Mae'n cymryd amser ac arian i hyfforddi mwy o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, gall fod yn anodd cymell staff presennol i aros neu recriwtio'n ddigon cyflym i leddfu pwysau. Mae angen dull cydlynol, rhesymegol i uwchsgilio'r gweithlu i'w paratoi ar gyfer modelau gofal newydd i ddarparu gofal i grwpiau amrywiol o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn darpariaeth gofal iechyd. Mae angen datrys y problemau hyn yn gyflym, ac yn ddiogel – gyda threfniadau rheoleiddio yn chwarae rhan allweddol.

Argymhellion

Argymhellwn:

- Mae rheolyddion a chofrestrau yn cydweithio i nodi cyfleoedd i gyflymu cyflenwad y gweithlu, arfogi ymarferwyr i ymdrin â heriau yn y dyfodol o ran sut y caiff gofal ei ddarparu, cau bylchau diogelwch ac amddiffyn cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae proses glir i arwain datblygiad rolau iechyd a gofal newydd gan gynnwys cwmpas a diben y rôl, a'r broses ar gyfer penderfynu ar lefel y sicrwydd sydd ei angen.
- Dylai fod ffordd gytûn hefyd o benderfynu pryd i wro oddi wrth ddefnyddio dull gweithredu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn seiliedig ar adolygiad o risgiau a buddion ochr yn ochr ag ystyried y cyd-destun cenedlaethol.
- Mae'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a darparu'r gweithlu iechyd a gofal ar draws y Deyrnas Unedig yn cefnogi dulliau ychwanegol ac amgen o sicrwydd fel ffordd o reoli risgiau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithio i ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer rheoleiddio pobl, i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu strategaethau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol.

Argymhelliad a allai fod yn rhan o rôl y Comisiynydd Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Nodi risgiau yn ymwneud â phrinder gweithlu a sut y caiff ymarferwyr eu rheoleiddio. Byddai hyn yn helpu i lywio'r strategaethau rheoleiddio.”

Ymrwymadau'r Awdurdod i ofal mwy diogel

- Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei rôl oruchwylio, ei arbenigedd a'i bŵer cynnull i gefnogi datblygiad y strategaethau hyn gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig.

Atebolrwydd, ofn, a diogelwch y cyhoedd

Nid yw'n glir sut y gallwn wneud i atebolrwydd unigol weithio mewn system sy'n ddiogel i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn deg i weithwyr proffesiynol. Mae'r hwb mawr tuag at ddysgu a diwyllianau cyfiawn yn y gweithle yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau diogelwch, a chaniatáu i weithwyr proffesiynol ymarfer heb ofni cael

eu cosbi'n annheg os aiff pethau o chwith. Fodd bynnag, mae risg y bydd atebolrwydd unigol yn cael ei anwybyddu. Amlygodd adroddiad Ockenden yr awydd ar yr un pryd i ddsygu o niwed, a gosod atebolrwydd priodol am fethiannau annerbyniol.

Mae atebolrwydd unigol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel mewn iechyd a gofal, ac mae rheoleiddio proffesiynol yn rhan annatod o'r fframwaith hwn. Dylid deall hyn pan fydd ymholiadau ac adolygiadau yn ymchwilio i fethiannau mawr.

Mae'n rhaid i ni gydnabod yr ofnir agweddau ar reoleiddio proffesiynol bob amser i raddau – ac addasrwydd i ymarfer yn benodol. Ond mae yna bethau y gall rheolyddion eu gwneud i liniaru hyn. Mae ofn gweithwyr proffesiynol o gael eu beio'n annheg yn cael ei ysgogi'n rhannol gan gamddealltwriaeth ynghylch rôl y rheolyddion, felly mae angen i'r camau a gymerir gan reolyddion fod yn deg ac yn dryloyw, gydag esboniadau clir o sut a pham y gwneir penderfyniadau. Mae gan gyflogwyr rôl allweddol hefyd o ran mynd i'r afael â materion yn lleol, cyfathrebu disgwyliadau'r rheolydd a chyfeirio aelodau o staff lle mae pryderon.

Mae dulliau diwylliant cyfiawn o ymdrin â diogelwch cleifion, fel yr hyn a hyrwyddir gan GIG Lloegr, yn cynnwys cwestiynau cyfiawn am gyfrifoldeb unigol, a lle y gall fod angen edrych yn agosach ar gyfranogiad unigolyn mewn digwyddiad. Dylai'r polisïau hyn fod yn glir – fel y mae canllawiau'r GIG – ynghylch pryd y mae'n briodol neu'n angenrheidiol cyfeirio pryder at y rheolydd – yn seiliedig ar feini prawf y rheolydd ei hun.

Mae gennym bryderon, fodd bynnag, am y dull manau diogel a fabwysiadwyd gan Gangen Ymchwiliadau Diogelwch Gofal Iechyd (HSIB) Lloegr, gan nad yw ei throthwy uchel ar gyfer atgyfeirio at y rheoleiddiwr yn cyfateb i rai'r rheolyddion ei hun. Ymddengys hefyd ei fod yn mynd yn groes i'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

Dylem gydnabod y gall dulliau newydd, ystyrion, cenedlaethol o ymdrin â diogelwch a gwneud iawn dorri ar draws y mecanweithiau diogelwch cleifion presennol. Dylai llywodraethau felly fwrw ymlaen yn ofalus a'u hadolygu am ganlyniadau anfwriadol.

Er y gallai'r argymhellion canlynol helpu cyfrannu tuag at leddfyr rhywfaint ar y tensiwn rhwng atebolrwydd a diwyllianau dysgu cyfiawn, rydym yn cydnabod cyfyngiadau'r gwaith yr ydym wedi gallu ei wneud ar hyn. Er mwyn gwneud cyfiawnder â chymhlethdod – a brys – y mater hwn, mae angen inni gael sgwrs agored, ar draws y sector, gyda mewnbwn gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol, cyflogwyr a llawer o rai eraill.

Argymhellion

Argymhellwn:

- Dylai rheolyddion wneud mwy, yn unigol ac ar y cyd, i egluro ac esbonio eu hymagwedd at achosion lle mae gweithiwr proffesiynol wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad diogelwch claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau nad yw'r dull ymchwilio 'mannau diogel' sy'n cael ei roi ar waith yn Lloegr yn torri ar draws y ddyletswydd gonestrwydd nac yn cael effaith negyddol fel arall ar dryloywder nac atebolrwydd.

Argymhelliad a allai fod yn rhan o rôl y Comisiynydd Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Dylai fod mecanwaith annibynnol ar gyfer cydlynu a goruchwylio ymchwiliadau cyhoeddus yn ganolog
- Dylid cyflwyno gwiriadau polisi i sicrhau bod unrhyw ddulliau gweithredu cenedlaethol newydd sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gydlynol gyda, ac nid yn tanseilio, mecanweithiau presennol.

Ymrwymadau'r Awdurdod i ofal mwy diogel

- Bydd yr Awdurdod yn dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ffyrdd i ddull 'mannau diogel' HSIB Lloegr, a mentrau eraill ar gyfer gwella diwylliant diogelwch, gefnogi gonestrwydd ac atebolrwydd. Bydd hyn yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol, rheolyddion, a llawer o rai eraill.

Gofal mwy diogel i bawb: corff diogelwch trosfwaol

Mae ein hadroddiad yn dangos pa mor dameidiog yw'r dirwedd rydym yn gweithredu ynddi – iechyd, gofal cymdeithasol, a phedair gwlad, pob un â mecanweithiau diogelwch cleifion a'r cyhoedd cymhleth sy'n rhychwantu nifer o wahanol gyrff.

Ers gormod o amser, bu disgwyl i sefydliadau unigol â chylchoedd gwaith gwahanol a phenodol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion diogelwch y gweithlu a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn strwythurol ddiffygiol gan nad oes atebolrwydd cyffredinol am gydweithio a chydweithredu. Mae difaterwch gwylwyr a gwahanol flaenoriaethau sefydliadol hefyd yn creu rhwystrau sylweddol. Mae pawb yn ddealladwy yn edrych ar y broblem trwy lens eu cylch gwaith eu hunain, ond nid oes gan neb y trosolwg.

Mae hyn yn berthnasol i Ymchwiliadau hefyd. Er eu bod yn canolbwyntio ar achosion eithafol, maent yn sbardun allweddol ar gyfer newid. Trawsnewidodd yr Ymchwiliadau i fethiannau mewn llawdriniaeth ar y galon i blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste a llofruddiaethau Shipman y ffordd y mae rheoleiddio proffesiynol yn gweithio. Mae'r system bresennol yn dal i fod yn amherffaith, ond mae wedi gwella'n fawr o'i chymharu â'r fframwaith a ddominyddwyd gan weithwyr proffesiynol blaenorol. Mae ymchwiliadau yn gybolfa o statudol ac anstatudol, gydag amrywiadau sylweddol mewn cylch gwaith sy'n aml yn anesboniadwy. O ran rheoleiddio proffesiynol, mae gan rai ffocws cryf ar weithredoedd rheolyddion (Shipman, Canol Swydd Stafford) tra nad yw eraill (Paterson, Ockenden).

Argymhelliad

Argymhellwn:

Mae gan bob gwlad yn y Deyrnas Unedig Gomisiynydd Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu swyddogaeth gyfatebol, gyda chyfrifoldeb eang am nodi, monitro, adrodd a chynghori ar ffyrdd o fynd i'r afael â risgiau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Dylai'r comisiynwyr eistedd uwchlaw pob sefydliad iechyd a gofal arall, yn rhychwantu darpariaeth gyhoeddus yn ogystal â phreifat. Byddent hefyd yn annibynnol ar Lywodraethau, ac yn dryloyw o ran eu hymagwedd a'u hallbynnau. O'r safbwynt goruchwyllo unigryw hwn, a chan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, byddent yn cyflawni'r rolau a ganlyn:

Gwybodaeth risg

- Adolygu data ar risgiau a gynhyrchir gan sefydliadau eraill i nodi tueddiadau cenedlaethol neu leol
- Cynnal meta-ddadansoddiadau o ganfyddiadau ymholiadau i nodi tueddiadau
- Adrodd yn benodol ar unrhyw bryderon am anghydraddoldebau sy'n deillio o'r data diogelwch.

Arbenigedd

- Gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â risgiau a nodwyd drwy'r swyddogaeth gudd-wybodaeth
- Nodi bylchau yn nhirwedd diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, a gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â nhw
- Nodi bylchau mewn casglu data a gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â nhw
- Argymhell ffyrdd y gellir gwella a chysoni casglu data ar draws y sector
- Cyfeirio pobl â chwynion at y sefydliad cywir (a chofnodi pryderon fel rhan o'i rôl cudd-wybodaeth)
- Cynnal gwiriadau polisi i sicrhau bod unrhyw ddulliau gweithredu cenedlaethol newydd sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gyson â, ac nad ydynt yn tansellio, mecanweithiau presennol er anfantais yn y pen draw i ddiogelwch cleifion.

Ysgrifenyddiaeth ymchwiliadau

- Cydlynu ymchwiliadau ac adolygiadau i fethiannau iechyd a gofal i ddod â mwy o gydlyniant i gylch gorchwyl a dulliau gweithredu
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn argymhellion ymchwiliad fel bod gwersi'n cael eu dysgu ac nad yw camgymeriadau'n cael eu hailadrodd.

O ran y problemau yn yr adroddiad hwn, byddai'r Comisiynwyr yn helpu nodi:

- Risgiau sy'n effeithio ar grwpiau gwarchoddedig yn wahaniaethol [*Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau*],
- Risgiau sy'n codi yn y modd y caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu nad eir i'r afael â nhw [*Rheoli ar gyfer risgiau newydd*],
- Risgiau sy'n ymwneud â phrinder gweithlu a sut mae ymarferwyr yn cael eu rheoleiddio [*Wynebu'r argyfwng gweithlu*], a

Mae *Gofal mwy diogel i bawb* – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt yn dangos sut mae materion allweddol anghydraddoldebau, risgiau newydd, argyfwng y gweithlu ac atebolrwydd oll yn ein harwain at yr argymhelliad anochel hwn.

Heb rôl sydd â chyfrifoldeb dros wneud y system yn fwy diogel yn unig, byddwn i gyd yn parhau i edrych ar ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth drwy ein lens ein hunain – ac o bosibl beryglu diogelwch y cyhoedd.

Gweithiwch gyda ni tuag at ofal mwy diogel i bawb.